# PAM FOD BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY YN GANOLBWYNT MASNACH?

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau sy'n ennyn diddordeb a ddarperir gennych. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd wych o ddatblygu sgiliau cyfannol dysgwyr (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Byddwch eisiau canolbwyntio ar pam mae dysgu o bwys a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.

Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybr y gellid ei gymryd drwy'r gweithgaredd. Nid yw hyn i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull, yn dibynnu ar anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

### TROSOLWG

Mae'r dysgwyr yn canolbwyntio'n gyntaf ar fasnach yn Llangollen, ddoe a heddiw, cyn archwilio sut y defnyddiwyd porthmyn i fasnachu gwartheg rhwng gogledd Cymru â Lloegr, yn hanesyddol. Maent yn dod i wybod am sut yr adeiladwyd Traphont Ddŵr Pontcysyllte cyn iddynt fynd ati i ddylunio, adeiladu a phrofi eu traphont ddŵr eu hunain. Mae dysgwyr yn archwilio'r hyn y mae Cymru'n ei allforio i wledydd eraill cyn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar sut y gallem wella allforion masnach.

### CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Mynediad at: Find out what every symbol means on an OS Explorer map - OS GetOutside (Saesneg yn unig).
Dulliau o ddylunio ac adeiladu traphont ddŵr o ddefnyddiau y gellir eu hailgylchu, megis cardbord, poteli plastig, papur, llinyn ac unrhyw ddefnyddiau naturiol y maent yn dod o hyd iddynt yn yr ardal, ynghyd â siswrn, ffyn metr, tâp mesur chwaraeon, stopwats.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Gallai rhai tasgau fod yn fwy effeithiol os oes gan barau neu grwpiau o ddysgwyr fynediad at ddyfais sy'n darparu mynediad i'r rhyngrwyd.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Er mwyn cyrchu'r raddfa ar Google maps, cliciwch ar 'View larger map'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

# BETH YW GWERTH MASNACH?

Eglurwch wrth y dysgwyr mai Llangollen a'i masnach yw ffocws y dasg hon. Fe fyddan nhw hefyd yn edrych ar sut roedd gogledd Cymru yn masnachu gwartheg gyda Lloegr.

## Sgrîn 3

Eglurwch wrth y dysgwyr fod Llangollen yn y 19eg Ganrif wedi'i disgrifio fel tref farchnad, h.y. canolfan ar gyfer cyfnewid nwyddau amrywiol.

Yn hanner cyntaf y 19eg Ganrif, y prif ddiwydiannau oedd gweithgynhyrchu gwlanen, barcio a bragu.

Roedd mwyngloddiau plwm a haearnfaen, chwareli llechi a chalchfaen yn y gymdogaeth, ond yn yr ardal ehangach, roedd y dosbarth llafurio yn dibynnu'n bennaf ar amaethyddiaeth. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ydych chi'n ei wybod am Langollen? Sut ydych chi'n gwybod y pethau hyn?
- Pa fath o nwyddau oedd yn cael eu gwneud yn Llangollen? Pa rai o'r nwyddau hyn y gellid eu gwerthu i bobl eraill?
- Pa nwyddau eraill a gynhyrchwyd yn y gymdogaeth? Pa rai o'r rhain ydych chi'n meddwl y gellid eu gwerthu i bobl eraill?
- Pam ydych chi'n meddwl bod Llangollen mewn sefyllfa dda i fod yn dref farchnad?

## Sgrîn 4

Gofynnwch i'r dysgwyr ddod o hyd i Langollen ar y map ac i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam fod Llangollen mewn sefyllfa dda i fod yn dref farchnad?
- Pa lwybrau i mewn ac allan o Langollen y gellid eu defnyddio i gludo nwyddau? Rhestrwch gymaint ag y gallwch.
- Yn eich barn chi, beth yw'r prif drefi a dinasoedd y gellid cludo nwyddau iddynt o Langollen?
- Sut ydych chi'n meddwl bod masnach gyda lleoedd eraill wedi newid dros y blynyddoedd? Pam?

## Sgrîn 5

Eglurwch wrth y dysgwyr fod hanes hir o fasnachu yn Llangollen.

Gwahoddwch nhw i edrych ar y Map - Coflein a dod o hyd i Langollen. Mae'r map yn dangos safleoedd treftadaeth ledled Cymru. Yna, dylent drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa safleoedd treftadaeth sydd yn Llangollen? A ydych chi wedi bod i unrhyw un o'r rhain? Pryd? Sut le ydoedd?
- Pa safleoedd treftadaeth y gellid eu cysylltu â:
    - masnachu yn y farchnad
    - gweithgynhyrchu nwyddau - pa nwyddau a gynhyrchwyd ganddynt?
- Wrth edrych ar yr ardal o amgylch Llangollen, pa safleoedd eraill sy'n dangos hanes o gynhyrchu nwyddau ar gyfer masnach, yn Llangollen?
- Pa dystiolaeth sydd o fasnachu gyda Lloegr neu ymhellach i ffwrdd? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

**N.B.** *Efallai y bydd dysgwyr yn sylwi ar enwau ffyrdd, e.e. Stryd y Felin, Stryt y Rhaglaw, Stryd y Farchnad, ac ati.*

## Sgrîn 6

Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y wybodaeth ar y sgrîn am borthmyn yn gyrru gwartheg o Gymru i Loegr, edrych ar y map a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam ydych chi'n meddwl bod yn rhaid talu tollau yn y tollbyrth?
- Pam ydych chi'n meddwl bod gwartheg yn cael eu pedoli cyn gwneud y daith?
- Sut gallwch chi gyfrifo faint o amser y byddai'n ei gymryd i yrru gwartheg o Langollen i Lundain? Sawl diwrnod fyddai'n ei gymryd?

## Sgrîn 7

Rhoddir rhagor o wybodaeth am lwybrau porthmyn yma.

Gofynnwch i'r dysgwyr ddilyn y llwybr ar y map o Ynys Môn i Langollen. Yna, dylent drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa rannau o'r daith fyddai wedi bod fwyaf anodd, yn eich barn chi? Pam?
- Gan deithio tua 20 milltir y dydd, ble ydych chi'n meddwl y byddai'r mannau gorffwys? Pam?
- Roedd llwybrau'r porthmyn tua 20m o led ac roedd iddynt ymylon glaswellt, llydan. Pam ydych chi'n meddwl bod y llwybrau fel hyn?
- Ble ydych chi'n meddwl y byddai'r porthmyn a'u gwartheg yn aros dros nos? Pam?

## Sgrîn 8

Yma, ceir amlinelliad o gostau porthmyn ar gyfer cludo 300 o wartheg o Gymru i Lundain ym 1856. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth sy'n eich synnu am y costau hyn? Pam?
- Sut gallwch chi gyfrifo cyfanswm cost gyrru'r gwartheg i Lundain? Beth sydd angen i chi ei wybod yn gyntaf? Beth yw cyfanswm y gost?
- Faint fyddai cyfanswm y gost o yrru 300 o wartheg i Lundain, mewn arian modern?
- Mae £1 yn 1856 yn werth tua £140 yn arian heddiw. Beth yw cyfanswm y gost yn arian heddiw?

## Sgrîn 9

Eglurwch wrth y dysgwyr fod gwartheg yn cael eu defnyddio fel arian cyntefig, yn aml. Gallwn weld hyn yn nharddiad geiriau Cymraeg a Saesneg, fel y dangosir ar y sgrîn. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut gall edrych ar darddiad geiriau cyffredin ein helpu i ddeall y gorffennol?
- Gan feddwl am darddiad geiriau – o ble y daeth y rhain, yn eich barn chi:
  - pengwin
  - eirin gwlanog
  - draenog?

## Sgriniau 10-11

Gwahoddwch barau o ddysgwyr i ddefnyddio'r geiriau a ddangosir ar gychwyn cwestiynau y maen nhw am eu gofyn, er mwyn ceisio gweithio allan beth a ddangosir yn y ddelwedd. Yna, gallant rannu eu cwestiynau o fewn eu grŵp a thrafod atebion posibl i'w cwestiynau. Efallai y bydd angen iddynt wneud rhywfaint o ymchwil wrth wneud hyn. Fodd bynnag, efallai y byddai'n well parhau â'r dasg gan y byddant yn darganfod mwy am y ddelwedd wrth iddynt wneud hynny.

## Sgrîn 12

Eglurwch wrth y dysgwyr fod llawer o'r fasnach mewn gwartheg o Gymru i Lundain yn cael ei wneud ar sail llythyrau credyd. Roedd y fasnach hon yn hybu datblygiad systemau bancio yng Nghymru a Llundain.

Roedd gan drefi a hyd yn oed pentrefi eu banciau eu hunain. Roedd eu harian papur yn cynnwys darluniau o'r ardal leol â chyfeiriadau diwylliannol.

Gwahoddwch y dysgwyr i chwilio ar-lein am luniau o arian papur Cymreig a'u storio'n ddigidol. Ceisiwch sicrhau eu bod yn canfod lluniau a ddefnyddiwyd ar ddwy ochr pob arian papur.

## Sgrîn 13

Gwahoddwch y dysgwyr i edrych ar y lluniau o arian papur Cymreig ac i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw gwerth pob arian papur?
- Pa luniau a symbolau a ddefnyddir ar yr arian papur?
- Pa gyfeiriadau diwylliannol sydd ar yr arian papur?
- Pa liwiau a ddefnyddir?
- Pa ffont a ddefnyddir? Pam ydych chi'n meddwl y defnyddiwyd y ffontiau hyn?
- Pwy oedd yn arwyddo'r arian papur? Pam roedden nw'n cael eu harwyddo?

## Sgrîn 14

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i ddylunio eu harian papur lleol eu hunain. Gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol er mwyn cynllunio sut y byddant yn gwneud hyn.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa symbolau a/neu luniau ydych chi'n mynd i'w defnyddio? Pam ydych chi wedi dewis y rhain?
- Faint fydd gwerth eich arian papur? Pam?
- Pa liwiau ydych chi'n mynd i'w defnyddio? Pam?
- Pa mor fawr fydd eich arian papur? Pam?
- Pwy sy'n mynd i arwyddo'ch arian papur? Pam ydych chi wedi dewis y person hwn?
- Beth fydd eich banc yn cael ei alw? Pam?
- Sut allech chi sicrhau na allai neb ffugio un o'ch arian papur?

## Sgrîn 15

Gofynnwch i'r dysgwyr ddylunio eu harian papur lleol eu hunain.

### Sgrîn 16

Gwahoddwch y dysgwyr i rannu eu harian papur ag eraill, gan ofyn iddynt roi adborth ar y canlynol:

- Pa mor dda yw'r cyswllt rhwng eich arian papur â'r ardal leol, o ran y pethau hyn:
    - lluniau
    - symbolau
    - cyfeiriadau diwylliannol.
- Pa mor glir yw gwerth a dilysrwydd yr arian papur.

TASG 2

## SUT GALLWN NI ADEILADU TRAPHONT DDŴR?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n archwilio sut y cafodd Traphont Ddŵr Pontcysyllte ei hadeiladu, cyn dylunio, adeiladu a phrofi eu traphont ddŵr eu hunain.

### Sgrîn 3

Dangoswch y fideo o'r draphont i'r dysgwyr: Pontcysyllte Aqueduct (tua dwy funud).

Gofynnwch iddynt edrych ar y map a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam ydych chi'n meddwl y cafodd y draphont ddŵr ei hadeiladu?
- Gyda beth mae'r draphont ddŵr yn ymuno?
- Dilynwch lwybr y gamlas. Pam y byddai'r gamlas yn ddefnyddiol ar gyfer masnach?

### Sgrîn 4

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod am ddarganfod mwy am adeiladu traphont ddŵr Pontcysyllte.

Gofynnwch iddynt gyrchu'r dudalen we: Dyfrbont Pontcysyllte a darllen am sut yr adeiladwyd y draphont ddŵr.

Yna, gallant wylio'r animeiddiad: The Pontcysyllte Aqueduct, Trefor, Wrexham - Royal Commission Animation (tua 8 munud). Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa ddefnyddiau a ddefnyddiwyd i adeiladu'r draphont ddŵr? O ble y cafwyd nhw?
- Pa mor hir gymerodd hi i'w hadeiladu? Pam ydych chi'n meddwl ei bod wedi cymryd cymaint o amser?
- Sut ydych chi'n meddwl y cafodd y tir ei baratoi ar gyfer yr adeiladu - yn yr afon ac ar y tir?
- Pam roedd adeiladu'r draphont ddŵr yn gyflawniad mor eithriadol?

## Sgrîn 5

Gwahoddwch y dysgwyr i ysgrifennu Trydar/X i gyhoeddi agoriad traphont ddŵr Pontcysyllte. Atgoffwch nhw mai dim ond 280 nod sydd ganddyn nhw ar gyfer gwneud hyn.

## Sgrîn6

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod am adeiladu traphont ddŵr dros nant er mwyn efelychu traphont ddŵr Pontcysyllte.

Dywedwch wrthynt fod dau beth i feddwl amdanyn nhw...

- sut i wneud pont gadarn dros nant
- sut i sicrhau fod y bont wedi'i haddasu ar gyfer cludo dŵr sy'n llifo.

Rhowch wybod iddynt y byddant yn defnyddio defnyddiau y gellir eu hailgylchu, megis cardbord, poteli plastig, papur, llinyn ac unrhyw ddefnyddiau naturiol y byddant yn dod o hyd iddynt yn yr ardal.

## Sgrîn 7

Yn gyntaf bydd angen i ddysgwyr ymweld â'r safle i weld ble byddant yn adeiladu eu traphont ddŵr. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa wybodaeth fydd angen i chi ei chasglu ar yr ymweliad  â'r safle?
- Pa fesuriadau fydd angen i chi eu cymryd?
- Pa mor uchel fydd eich traphont ddŵr? Pam?
- Sut y byddwch yn sicrhau bod dŵr yn llifo ar draws eich traphont ddŵr?
- Pa fathau o ddefnyddiau naturiol sydd yn yr ardal, y gallech eu defnyddio?

## Sgrîn 8

Ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored i ymweld â'r safle a chasglu gwybodaeth.

## Sgrîn 9

Gofynnwch i grwpiau o ddysgwyr ddylunio eu traphont ddŵr, fel y disgrifir ar y sgrîn.

## Sgrîn 10

Gofynnwch i'r dysgwyr baratoi i fynd allan i'r awyr agored i adeiladu eu traphont ddŵr. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Focus questions**

- Pa ddefnyddiau sydd angen i chi eu cymryd gyda chi? Pam?
- Pa offer arall fydd ei angen arnoch chi? Pam?
- Sut byddwch chi'n mesur cyfradd llif y dŵr? Pam fod hyn yn bwysig?

**N.B.** *Unwaith y byddant wedi adeiladu a phrofi eu traphont ddŵr, tynnwch hi i lawr a chymryd yr holl ddefnyddiau yn ôl i'r ysgol i'w hailgylchu.*

## Sgrîn 11

Ewch â dysgwyr allan i'r awyr agored i adeiladu a phrofi eu traphont ddŵr.

## Sgrîn 12

Gofynnwch i'r dysgwyr edrych yn ôl ar y diagramau a luniwyd ganddynt ar gyfer eu dyluniad o'r draphont ddŵr a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa elfennau o'r diagramau oedd yr un fath â'r draphont ddŵr orffenedig?
- Pa elfennau o'r diagramau gafodd eu newid wrth i chi geisio adeiladu'r draphont ddŵr? Pam y cawson nhw eu newid?

Yna, gallant newid neu ail-lunio eu diagramau er mwyn dangos eu dyluniad terfynol a sut y gwnaeth weithio.

TASG 3

# BETH MAE CYMRU YN EI ALLFORIO I WLEDYDD ERAILL?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n archwilio beth mae Cymru'n ei allforio i wledydd eraill cyn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar sut y gellid gwella allforion masnach yng Nghymru.

## Sgrîn 3

Mewn grwpiau, gofynnwch i'r dysgwyr ystyried y ffotograff.

## Sgrîn 4

Eglurwch wrth y dysgwyr fod Airbus wedi defnyddio'r Afon Ddyfrdwy yn y gorffennol i gludo adenydd o'i ffatri ym Mrychdyn i'r llinell gydosod derfynol yn Toulouse, Ffrainc.

Gofynnwch i'r dysgwyr agor y map a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth oedd llwybr yr adenydd o Frychdyn i Toulouse? Rhestrwch y trefi yr aeth yr adenydd drwyddynt.
- Sut gallwch chi weithio allan pa mor bell y teithiodd yr adenydd? Pa mor bell yw hi o Frychdyn i Toulouse?
- Pam ydych chi'n meddwl y defnyddiodd Airbus yr Afon Ddyfrdwy i gludo'r adenydd?

## Sgrîn 5

Dangoswch y fideo: STUNNING EMIRATES A380 Take Off! (bron i 4 munud).

Rhoddir data am yr adenydd a'u cludiant ar y sgrîn. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Faint o bobl ydych chi'n meddwl y gall yr A380 eu cario? Sut gallwch chi amcangyfrif hyn o'r fideo?
- Sut gallwch chi amcangyfrif arwynebedd un adain? Beth yw arwynebedd amcangyfrifedig un adain? Pa unedau ddylech chi eu defnyddio? Pam?
- Pam ydych chi'n meddwl y cafodd yr adenydd eu hadeiladu a'u cludo mewn jigiau (dalwyr) pwrpasol? Rhestrwch gynifer o resymau ag y gallwch.

## Sgrîn 6

Dangoswch y fideo: River Dee -World-beating Airbus A380 Wings are on their way! (ychydig dros funud o hyd).

Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y testun ar y sgrîn am y gwch arbennig a deithiodd ar hyd yr Afon Ddyfrdwy ac atebwch y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam ydych chi'n meddwl bod yna broblemau gyda dyfnder yr afon? Sut gallai dyluniad y cwch gymryd y dyfnder hwn i ystyriaeth?
- Sut ydych chi'n meddwl y gallai'r cwch darfu ar fywyd gwyllt yr afon? Pam fod hyn yn broblem?
- Sut mae dyluniad y cwch yn arwain at geisio lleihau unrhyw darfu ar fywyd gwyllt?

## Sgrîn 7

Eglurwch wrth y dysgwyr fod yna bryderon amgylcheddol bob amser gyda phrosiectau awyrennau. Ar y sgrîn, ceir honiadau a wnaed gan Airbus am ei awyren A380.

Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried y syniadau ar y sgrîn ynghylch honiadau Airbus ac yna benderfynu gyda phwy maen nhw'n cytuno a pham.

## Sgrîn 8

Eglurwch wrth y dysgwyr fod 14 o gwmnïau hedfan wedi gwneud archebion am yr Airbus A380. Dangosir y rhain ar y sgrîn.

Hefyd, eglurwch fod cynhyrchiad yr awyren olaf wedi dod i ben yn 2021 ac na fydd Airbus yn adennill ei fuddsoddiad, gan fod y costau datblygu yn €25 biliwn ($29.7 biliwn). Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- A ydych chi wedi gweld Airbus 380? Pryd?
- A ydych chi wedi hedfan mewn Airbus 380? I ble wnaethoch chi hedfan?
- Ble ydych chi'n meddwl y mae pob un o'r cwmnïau hedfan hyn wedi'u lleoli? Pam?
- Sut gallwch chi gyfrifo faint mae pob awyren yn ei gostio i'w gwneud, mewn doleri ($)? Beth yw gwerth pob awyren, mewn $?
- Sut gallwch chi ddarganfod faint mae pob awyren yn ei gostio i'w gwneud, mewn punnoedd Prydeinig (£)? Beth yw gwerth pob awyren mewn £?
- Pam ydych chi'n meddwl na fydd cwmni Airbus yn adennill ei fuddsoddiad?

## Sgrîn 9

Eglurwch wrth y dysgwyr fod Cymru'n allforio llawer o gynhyrchion. Rhoddir detholiad o fasnach nwyddau rhyngwladol Cymreig: Ebrill 2023 i Fawrth 2024 (data pennawd), Llywodraeth Cymru 2024, ar y sgrîn.

Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y testun a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw'r categorïau o allforion a grybwyllir? Ym mhle ydych chi'n meddwl mae adenydd awyren yn ffitio yn y categorïau hyn? Pam?
- Sut allech chi ddangos y ffigurau hyn yn gliriach? Pam y byddai hyn yn eich helpu i wneud synnwyr o'r ffigurau?
- Sut allech chi ddefnyddio Excel i ddangos y ffigurau hyn yn gliriach?

Yna, gallant echdynnu'r ffigurau perthnasol o'r testun.

## Sgrîn 10

Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio Excel i ddangos y data a echdynnwyd o Sgrîn 9. Rhoddir cyfarwyddiadau ar y sgrîn.

## Sgrîn 11

Gwahoddwch y dysgwyr i gyrchu'r data ar allforion o Gymru rhwng 2015 a 2023 a lawrlwytho'r data i'w dyfais. Yna, i ddefnyddio Excel i ddidoli'r data a'i osod ar ffurf siartiau, er mwyn eu helpu i ateb y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa dueddiadau allwch chi eu gweld yn y data?
- Pa gategorïau o allforion sydd â gwerthoedd uwch yn gyson?
- Pa rai yw'r categorïau sy'n cael eu gwerthfawrogi fwyaf? A ydy hyn yn eich synnu? Pam?
- Pam ydych chi'n meddwl y bu gostyngiad mewn allforion yn 2020?
- Pe byddech chi'n Brif Weinidog Cymru, a fyddech yn hapus â'r data? Pam? Beth allech chi ei wneud i wella'r data?

## Sgrîn 12

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod am gynnig cyngor i Lywodraeth Cymru ar sut i wella allforion masnach. Gofynnwch iddynt feddwl yn ôl i'r data a'u syniadau er mwyn trafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ym mha feysydd y gallai Cymru wella ei hallforion masnach, yn eich barn chi? Pam?
- Beth ellid ei wneud ym mhob un o'r meysydd hyn er mwyn gwella masnach? Sut byddai'r syniadau hyn yn gwella masnach? (Efallai y bydd angen i chi wneud rhywfaint o ymchwil i'ch meysydd dethol.)

## Sgrîn 13

Gofynnwch i'r dysgwyr ddethol tri o'u syniadau ar gyfer gwella masnach allforio ac i ddrafftio cyngor y gallent ei roi i Lywodraeth Cymru ar y tri syniad hyn, gan ddefnyddio data i gefnogi eu cyngor, lle bo modd.

Yna, dylent ysgrifennu paragraff ffurfiol byr ar bob un, er mwyn dangos sut y dylai gweithredu ar eu cyngor wella masnach allforio.

## Sgrîn 14

Eglurwch wrth y dysgwyr eich bod am iddyn nhw ddefnyddio'r triongl myfyrio ar gyfer ystyried sut maen nhw wedi darparu cyngor i Lywodraeth Cymru ar fasnach allforio.

Gwahoddwch y dysgwyr i lusgo a gollwng y termau a ddarperir i ddangos eu meddyliau ac i ystyried pa strategaethau eraill a ddefnyddiwyd ganddynt ac yna i gofnodi eu syniadau.